

DOLEN Y TAB – 36

1–2 Ionawr 2021

OEDFA RITHIOL 3 IONAWR

Myfyrdod gan
Y Parchg. Aled Edwards

YR OEDFAON NESAF

10 Yng ngofal Geraint Rees.

17 Oedfa Deuluol yng nghwmni'r Teulu Morse.

Hefyd ar 3 Ionawr. . .

12.00 Oedfa Radio Cymru
Dim manylion pellach.

12.30 Radio Cymru
Bwrw Golwg gyda John Roberts.

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees. Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn.
Diolch yn fawr.

Dymuniadau Gorau

Hyfryd yw cyhoeddi bod Carol Williams, Hendre, Pentyrch wedi dychwelyd gartref ac yn gwella wedi iddi dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Priodas Aur

Estynnwn ein llongyfarchiadau i Glenys a Guto Roberts, Creigiau, oedd yn dathlu hanner can mlynedd o briodas ar 29 Rhagfyr 2020. Pob dymuniad da!

Tafod y Tab

Daeth yr amser unwaith yn rhagor i wahodd cyfraniadau i rifyn mis Ionawr o *Tafod y Tab*. Yn ôl ein harfer byddwn yn croesawu adroddiadau a lluniau ac unrhyw eitemau eraill fyddai o ddiddordeb i'w cynnwys yn y *Tafod*.

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau neu awgrymiadau at Gwilym ac Eleri (gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205 erbyn **Dydd Iau 21 Ionawr**.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod cyntaf 2021 o'r Bwrdd yn ystod ail wythnos mis Ionawr. Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Sul 10 Ionawr. Diolch.

Bedyddiadau

Aeth naw mis heibio ers i ni golli Jane Eryl Jones mor ddisymwth ganol mis Ebrill y llynedd. Bydd holl aelodau'r Tabernacl yn cofio am ei chyfraniad gwerthfawr i nifer o agweddau o waith yr eglwys, ond ei phrif gymwynas oedd y gofal a'r urddas a osododd wrth weinyddu'r bedyddiadau yn y capel. Rydym yn byw yn y gobaith y bydd modd i'r gynulleidfa ail-ymgynnull yn y Tabernacl o fewn ychydig fisoedd ac felly mae'r Bwrdd yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw un yn eich plith sy'n fodlon gofalu am y gwaith pwysig ond pleserus hwn. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) os oes diddordeb gennych neu os hoffech dderbyn rhagor o fanylion.

Cyrraedd y Copa!

Tra bod rhai ohonom wedi ein gwahardd am y tro rhag mentro cyn belled â Mynydd y Garth, daeth y newyddion yn gynharach heddiw bod Gwenno Rees wedi cyrraedd copa Kilimanjaro yn Nhansania. Fel y gŵyr pawb, hwn yw mynydd uchaf cyfandir Affrica sy'n sefyll 5,895 metr (19,341 troedfedd) uwch lefel y môr. Does dim rhyfedd ei bod hi'n cymryd dyddiau lawer i gyrraedd y brig. Llongyfarchiadau mawr i ti, Gwenno. Gobeithio y bydd modd i ti rannu dy brofiadau gydag ni yn y Tabernacl maes o law.

BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

'Cnonyn Aflonydd'

Gan mlynedd union i eleni (1921), roedd gŵr ifanc 26 mlwydd oed ar fin cychwyn ei flwyddyn lawn gyntaf fel gweinidog Capel Jerusalem, Penmaenmawr. Enw swyddogol y gweinidog hwnnw oedd y Parchg. Albert Evans Jones, ond roedd eisoes wedi mabwysiadu'r enw Cynan iddo'i hyn, ac fel Cynan yr hoffai gael ei adnabod am weddill ei oes. Yn y Prolog i'w gofiant rhagorol iddo, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Wasg y Lolfa, mae Gerwyn Williams yn disgrifio'r her o geisio portreadu cymeriad oedd yn 'gnonyn aflonydd' gan fod hyn yn peri anhawster wrth geisio dehongli un oedd mor llawn o baradocsau.

Ceir enghreifftiau o'r paradocsau hyn dros y ddegawd a dreuliodd yn y weinidogaeth. Hyd yn oed cyn cyrraedd Penmaenmawr roedd eisoes wedi troi'r tresi mewn modd cyhoeddus iawn trwy ymwrthod â chulni'r Bedyddwyr oherwydd eu gwrthwynebiad i rannu'r cymun ag aelodau eglwysi enwadau eraill, a dewis ymuno â'r Presbyteriaid. I un oedd wedi treulio cyfnod fel Caplan yn y fyddin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd y fath agwedd yn gwbl wrthun iddo.

Fel bugail, ni ellid ei well. Nid yn unig roedd yn bregethwr pwerus o ran llais ac osgo ond hefyd medrai saernïo pregethau o sylwedd, ac roedd y gallu ganddo i addasu ei genadwri i wahanol gynulleidfaoedd. Roedd hefyd yn arbennig o weithgar wrth ymwneud â'r ieuenctid, a cheisiai ehangu'r ddarpariaeth a gynigiai y tu hwnt i blant Jerusalem yn unig. Er enghraifft, yn 1923 sefydlodd gymdeithas gan wahodd pobl ifanc y dref gyfan i drafod gwrthryfel yr ifanc 'yn erbyn rhagrith a chulni a cheidwadaeth', trwy eu goleuo ar bynciau cymdeithasol cyfoes megis problemau tloedi, diweithdra a heddwch gan gyflwyno ateb Cristnogaeth i'r heriau hyn. Cafodd lwyddiant

ysgubol gydag Urdd y Bobl Ifanc, gyda dros 50 yn mynychu'r cyfarfodydd yn wythnosol. Bu'n amlwg hefyd yn ystod ei gyfnod ym Mhenmaenmawr fel un o sylfaenwyr cangen lewyrchus iawn o Gynghrair y Cenhedloedd, mudiad a ffurfiwyd drannoeth y rhyfel, ac a ragflaenodd y Cenhedloedd Unedig i annog cyflareddu yn hytrach na chodi arfau fel y dull synhwyrol o ddatrys anghydfod rhwng gwledydd.

Ond fel mae ei gofiannydd yn dangos, efallai mai yn y gwrthgyferbyniad rhwng Cynan y gweinidog a Cynan y bardd yr amlygir y paradocsau hyn yn bennaf yn y cyfnod hwn. Ar y naill law mae'n annerch cyfarfodydd dirwest yn ôl disgwyliadau aelodau hŷn Jerusalem, tra yn ei gerddi – ac yn enwedig themâu prydddest arobryn Eisteddfod Genedlaethol 1921, 'Mab y Bwthyn' – nid llais gweinidog confensiynol a glywir ond model o 'weinidogaeth amgen a chenedlaethol os nad rhyngwladol ei chyrhaeddiad'.

Mae'n bosib bod a wnelo'r tyndra hwn ynghylch ei benderfyniad i gilio ar y weinidogaeth ar ddechrau'r 1930au pan benodwyd ef yn diwtor yn Adran Efyddiau Allanol, Coleg Bangor. Ond ni roddodd y gorau i bregethu'r efengyl, sydd efallai'n cadarnhau dehongliad Gerwyn Williams mai 'cnonyn aflonydd' oedd Cynan yn y bôn.

Dishgwl 'Mla'n!

Diolch i aelodau talentog y Twmiaid am eu rhaglen ysgafn i'n diddanu yn ein cartrefi trwy gyfrwng *Facebook* yn gynharach yr wythnos hon. Roedd yn donic amserol iawn yng nghanol dyddiau mor ddigysur rhwng y Nadolig a'r Calan, heb gyfle i weld ein teuluoedd a'n ffrindiau. Wedi'r wledd o hiwmor cawsom gyfarchiad 'Blwyddyn Newydd Dda' ganddynt o gopa Pen y Fâl gwlyb iawn. Roedd hi'n hyfryd eu gweld wedi closio at ei gilydd ar waetha'r glaw ar adeg cyn bod neb wedi clywed am 'gadw pellter cymdeithasol'. Yn sicr, rydyn ni i gyd yn 'dishgwl 'mla'n' yn fawr iawn at weld y Twmiaid yn cynnal oedfaon yn y Tabernacl unwaith eto'n fuan.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am y swydd ran-amser

Am fanylion pellach, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West

[mikealynwest@yahoo.co.uk/](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk)

01443 206833

Gwilym Huws

[gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)

01443 225205